

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanllyfni, Nos Fawrth y 12fed o Dachwedd 2019.

- 1. Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair), Dylan Herbert, Iona Wyn Jones, Erfyl Williams – Penygroes; Harry Wyn Owen, Gareth Lloyd Jones, Sian Dafydd – Talysarn; Gwyndaf Roberts, Hefina MW Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Dafydd Thomas – Nebo; Judith Humphreys, Craig ab Iago – Cynghorwyr Sir; Rhian George – Swyddog Cefnogi Cymuned eitem 2./ **Ymddiheuriadau:** Ffion Jones – Nantlle a Justin Davies – Penygroes.
- 2. Rhian George** (gwadd) Swyddog Cefnogi Cymuned. Croesawyd Rhian i'r cyfarfod – dywedodd ei bod yn gwasanaethu dros Dyffryn Nantlle, Deiniolen, Rhiwlas, Bethel a Caernarfon i helpu i ddatblygu prosiectau cymunedol drwy adnabod ffynonellau arian ac ymateb i anghenion lleol. Esiamplau a roddodd oedd prosiect trafndiaeth cymunedol 'O Ddrws i Ddrws', a prosiectau pontio cenedlaethau cymunedol. Dywedodd fod grwp cymunedol yn gorfod bod yn rhan o unrhyw brosiect, a bod grantiau cynnal a chadw yn anodd i gael gafael arnynt nhw. Fe holwyd Rhian am sefyllfa bresennol parc sglefrio Talysarn. Dywedodd fod y Cyngor yn ymwybodol o'r problemau, a'u bod mewn trafodaethau ar hyn o bryd i geisio cael grwp at ei gilydd. Gydag unrhyw brosiect, byddai yn rhaid sicrhau bod ffordd gynaliadwy o sicrhau dyfodol unrhyw adnodd. Dywedodd Rhian fod yn rhaid i gymuned fod yn bro-actif, adod ag unrhyw syniad ymlaen, a byddai angen adroddiadau dichonoldeb ac ati i gefnogi unrhyw gais. Diolchwyd Rhian am ddod.
- 3. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Gwyndaf, Hefina ac OP Huws – eitem 7.
- 4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Hydref.** Gwyndaf yn cynnig cywirdeb, a Hefina yn eilio. Pawb yn cytuno.
- 5. Cynghorwyr Sir – Adroddiadau.** Cafwyd adroddiad gan Judith – dywedodd fod y gwasanaeth Di-Wifr Cymunedol ar fin dod yn fyw. Fe ddywedodd fod y Cyngor Sir yn fodlon symud y bin sydd wrth yr hen Co-op, a gofynnodd i'r Cynghorwyr am syniadau o ble i'w ail-leoli. Yr hyn a benderfynwyd oedd y byddai yn well ei adael ble mae o (oherwydd bod arosfan bws wrth ymyl), a gofyn am fin ychwanegol wrth fynedfa Ysgol Dyffryn Nantlle. Cafwyd adroddiad gan Craig – fe'i hysbyswyd fod y bin oedd ar y bont rhwng Llanllyfni a Penygroes wedi diflannu – dywedodd Craig fod un arall yn dod yn ei le. Bu trafodaeth am y gwasanaeth bws, a roedd y Cynhorwyr yn bryderus nad oedd y gwasanaeth presennol ddim yn ddelfrydol. Dywedodd Craig fod Cyngor Gwynedd yn trio datrys y broblem. Dywedodd ei fod yn dal i ymgyrchu am welliannau i safon tai Maes Castell. Rhannodd bryderon am broblemau cyffuriau. Penderfynwyd gwahodd Sgt Non i gyfarfod, ac ysgrifennu i'r Comisiynydd Heddlu yn mynegi pryder am yr ardal a'r diffyg swyddogion.
- 6. Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.** Gwahodd Judith, Craig, Cynefin, Pennaeth Tai i gyfarfod y Cyngor Cymuned mis Ionawr – pwnc- polisi tai. Holi am tir Tyn y Weirglodd a'r arolwg a fu. Y Clerc i ebostio Craig, a Craig am basio'r gwahoddiad ymlaen. Holi eto am bolisi iaith yr Heddlu – pa mor weithredol
- 7. Materion Pentrefi ac Unrhyw Fater i'r Heddlu.** Nebo Gwaith chwistrellu wedi bod yn effeithiol iawn – Dafydd Thomas yn ddiolchgar i'r Cyngor Cymuned am y gefnogaeth. Y gefnogaeth hon yn rhan o ymrwymiad y Cyngor Cymuned i bolisi bioamrywiaeth. Talysarn Y Parc sglefrio yn parhau i beri pryder. Canglwm mewn ardaloedd rhwng Talysarn a Penygroes. Cyflwr y ffordd yn ddrwg yng nghefn y Ganolfan, Ffordd yr Orsaf. Llanllyfni Cynghorwyr Llanllyfni yn hysbysu bod Pwyllgor y Neuadd eisiau creu holiadur am y Neuadd, a gofynwyd i'r Cyngor Cymuned am nawdd o £350 i'w argraffu. Mae 20 mlynedd ers adeiladu'r Neuadd, a phwrpas yr holiadur yw i hel syniadau ac wedyn creu cynllun dichonoldeb – Hefina, OP a Gwyndaf yn datgan diddordeb a gadael yr ystafell. Trafodwyd y cais, a phenderfynwyd cytuno i dalu am argraffu'r holiaduron; Cwynion am gyflwr y ffordd mewn ambell ran o'r pentref; Cwynion am yrrwyr loriau yn teithio o Taldrwst ar ffon symudol. Penygroes Toiledau Povey – agored rhwng 8.00 a 6.00, wedi cau ar ddydd Sul; Ffordd Llwyndu – twll ofnadwy yn y palmant ac yn beryglus; Cwynion am safon y torri gwair ar Ffordd yr Orsaf; Cyfer peipen wedi dod i ffwrdd yn y palmant (Judith wedi adrodd am hyn i Gyngor Gwynedd); Datblygiad y chwarel – dim cyfarfod wedi bod ers tipyn. Dylan yn awyddus i gael grwp trafod fel yr addawyd ar y cychwyn; Cyngor Gwynedd heb roi Give Way o lon yr Eglwys yn ol, na llinell wen – peryglus – bron i ddamwain ddigwydd ddwywaith. Diolch i Harry Wyn a Barry am gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Sul y Cofio, a gosod torch ar y gof golofn ym Mhenygroes a Nebo.
- 8. Clwb Ieuenctid – diweddariad.** Darllenwyd prisiau llogi ystafell Ysgol Dyffryn Nantlle.

9. Llwybrau a Mynwentydd Erfyl yn holi am ddiweddariad eto ynglyn a Llwybr Llwydcoed; Cwyn wedi ei dderbyn gan y contractwyr fod tywyrch wedi eu gosod ar fedd yn MacPelah, a fod y bedd yn rhy uchel ar gyfer torri gwair. Gofynwyd i'r Clerc ysgrifennu at y teulu i ofyn iddynt gael ymgwymerwyr i gywiro – angen atgoffa nad oes hawl gan unigolion weud unrhyw fath o waith yn y mynwentydd, dim ond ymgwymerwyr yswiriedig. Derbyniwyd pris o £200 ar gyfer glanhau llwybrau mynwent MacPelah a chlirio a lluchio tywyrch.

10. Taflen Ariannol, Taflen Gyllid, Biliau i'w Talu. A Johnson - £25 Ffon/Rhynggrwyd, A Johnson Derbynebau £19.65; Poppy Appeal £40.00; Cyngor Gwynedd (Gosod cysylltiadau trydanol) £2100.00; Cyngor Gwynedd – Archwilio Mewnol £222.00; Dyffryn Nantlle 2020 £250.00 (cyfraniad at y baneri) – pawb yn cytuo i dalu.

11. Cynllunio:–C19/0952/22/LL – Addasu adeilad stiwdio recordio i fod yn uned gwyliau – Pont Crychddwr, Llanllyfni – gwrthod ar y sail y gall y cais osod cynsail, ac hefyd ar sail diogelwch y fynedfa; C19/0942/22/RC – 18 Cae Capel Bach Penygroes – cais i dynnu amod 106 – gwrthod gan y gall diddymu'r amod osod cynsail, ac y dylid cadw at amodau cynllunio; C19/0940/22/LL – Cais i godi modurdy preifat ac ystafell snwcer gyda storfa uwchben – 6 Goleufryn, Ffordd yr Orsaf, Penygroes - caniatâu; C19/0980/22/LL – Tegfan, 7 Maes y Mor Penygroes – estyniad unllawr cefn - caniatâu; C19/0969/22/LL - Bryn Clwyd, Ffordd Llwyndu, Penygroes – estyniad ochr un llawr - caniatâu.

12. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis: Ni gynhaliwyd unrhyw is-bwyllgor, ond bydd cyfarfod mynwentydd nos Fawrth y 19eg o Dachwedd.

13. Goleuadau Nadolig (unrhyw ddiweddariad). Bocsus wedi eu gosod, ac anfoneb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd am y gwaith. Bydd angen dileu y cyflenwad trydan i'r bocsus presennol ar ol eleni. Y Clerc i yrru am gatalog goleuadau Nadolig a'i basio mlaen i Dylan. Y Cyngor yn atgoffa'r Aelodau bod cyfle i bentrefi eraill ofyn i'r Cyngor Cymuned am gyfraniad tuag at oleuadau Nadolig yn flynyddol (£50)

14. Gohebiaeth: Y Cadeirydd yn datgan nad yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw ohebiaeth a ddaw yn ddi-enw at sylw'r Cyngor.

***Cyngor Gwynedd:**

* Ailwynebu; Rhybuddion Cau Ffordd; Safle Bws Penygroes – gofyn wrth Cyngor Gwynedd os y byddai'r contractwyr sy'n tynnu'r hen lloches bws i lawr yn rhoi'r cerrig yn y cae estyniad MacPelah.

***Arall**

* Un Llais – Betsi Cadwaladr; Arolwg digidol; Beyond Zero Waste; VE Day 75; Deall Lleoedd yng Nghymru; IRPW – Adroddiad Blynyddol Drafft; Democratiaeth Llywodraeth Leol; Bwletin Un Llais; Sedd Wag gydag Un Llais; Bioamrywiaeth; Canllawiau Deddf yr Amgylchedd; Deddf Cymalau Heddlu Trefol.

*Clerks and Councils Direct;

*Village Post Offices – derbyn yr ymateb ynglyn a Swyddfa Bost Talysarn.

*Cwyn gan unigolyn am ddiffyg yn y gwasanaeth casglu gwastraff ty – oherwydd natur y gwyn, ymateb yn ol i'r unigolyn a gysylltodd i'w hysbysu i gysylltu efo Cyngor Gwynedd yn uniongyrchol.

15. Ceisiadau am Arian – Dawns i Bawb; Blodeuwedd – Trafod Chwefror.